CFfI CYMRU
WALES YFC

# POLISI IAITH GYMRAEG

# WELSH LANGUAGE POLICY

## Polisi Iaith Gymraeg CFfI Cymru

Mae Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru (CFfI) wedi ymrwymo i gynnal a datblygu'r Gymraeg trwy bob agwedd o'i waith. Mae'r mudiad yn cydnabod pwysigrwydd cyfartal yr iaith Gymraeg a Saesneg ac yn credu bod gan bawb sy'n ymwneud â gwaith y CFfI yr hawl i dderbyn gwasanaethau trwy'r iaith o'u dewis.

Rydym yn cydnabod fod iaith gyntaf yn bwysig i bawb, boed yr iaith gyntaf hwnnw yn Gymraeg neu'n Saesneg, oherwydd:

- bod iaith yn gyfrwng mynegiant
- bod iaith yn fathodyn hunaniaeth
- bod iaith yn offeryn grym
- bod yr iaith Gymraeg yn rhan o'n treftadaeth yng Nghymru, a'i fod yn rhan bwysig o'n gwaith fel Mudiad i sicrhau ei dyfodol.

## Rôl y CFfI mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg

Mae CFfI Cymru yn gwerthfawrogi'r rôl bwysig y mae'n ei chwarae yng nghefn gwlad Cymru, o ran yr iaith ac yn ymrwymo i ddiogelu a datblygu'r iaith drwy;

- Rhoi cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ddefnyddio'r iaith yn rhydd mewn amgylchedd cymdeithasol sy'n ddiogel ac yn gefnogol, gan helpu i gynyddu hyder yr holl bobl ifanc, gwirfoddolwyr a staff yn eu defnydd o'r iaith.
- Trwy amgylchedd cefnogol a diogel, darparu'r cyfleoedd anffurfiol i bobl ifanc, gwirfoddolwyr a staff sy'n gweld eu hunain fel siaradwyr Cymraeg ail iaith, i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder wrth ddefnyddio'r iaith, gan eu helpu i ymdrechu tuag at ruglder.
- Darparu'r holl wasanaethau'n ddwyieithog, gan ganiatáu i bawb gael mynediad i'r gwasanaethau trwy'r iaith o'u dewis.
- Cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r iaith a gweledigaeth 'Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050' trwy eu strategaeth Cymraeg 2050, yn ogystal â chymryd rhan ragweithiol yng ngwaith y Comisiynydd Cymraeg.

## Ein Cynnig Cymraeg

Trwy gefnogaeth y Comisiynydd Cymraeg, mae CFfI Cymru yn cytuno ar ei gynnig mewn perthynas â'i gefnogaeth i'r iaith.

1. Byddwn yn sicrhau bod aelodau'n cael cyfle i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd trwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Bydd holl wasanaethau'r sefydliad yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf, neu i'r chwith o'r Saesneg.
3. Cynigir cefnogaeth cyfieithu ym mhob cyfarfod, naill ai trwy gyfieithu ar yr un pryd, neu gan y cadeirydd yn gwahodd cyfraniadau trwy gyfrwng Cymraeg neu Saesneg, gyda phwyntiau yn Gymraeg yn cael eu cyfieithu gan berson cymwys sy'n bresennol.
4. Bydd CFfI Cymru yn darparu cefnogaeth i Ffederasiynau Sirol i ddarparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl yr angen, lle nad yw staff sirol a gwirfoddolwyr yn y ffederasiwn yn hyderus i wneud hynny.
5. Gall pobl ifanc, gwirfoddolwyr ac aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan a chyfathrebu â'r mudiad trwy gyfrwng y Gymraeg. Ym mhob gweithgaredd a digwyddiad a drefnir gan y sefydliad, bydd o leiaf un aelod o staff neu wirfoddolwr yn gallu cyfarch ac ateb ymholiadau yn Gymraeg.

## Cynllun Gweithredol

Er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni ei gynnig Cymraeg ac yn datblygu ei waith mewn perthynas â'r iaith, trwy gefnogaeth swyddfa'r comisiynydd Cymraeg; mae CFfI Cymru wedi datblygu cynllun gweithredol a fydd yn cael ei ystyried a'i adolygu'n flynyddol.
Mae'r cynllun gweithredol ynghlwm, o dan atodiad un.

## Monitro ac Adrodd

Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu gan gyngor CFfI Cymru, a bydd yn ofynnol iddo adolygu'r cynllun gweithredol yn flynyddol ac adrodd yn ôl ar eu canfyddiadau ac unrhyw argymhellion ar gyfer y cynlluniau gweithredol dilynol.

## Adborth

Bydd Cynllun Gweithredol Iaith Gymraeg CFfI Cymru ar gael i bob aelod, swyddog ac aelod o'r cyhoedd. Bydd hefyd ar gael ar wefan y sefydliad. Croesawir argymhellion ar gyfer gwella'r Cynllun.

Bydd Swyddog Datblygu'r Gymraeg CFfI Cymru yn delio â chwynion ynghylch methu â chwrdd ag unrhyw un o ofynion y cynllun; a nhw fydd yn cymryd yr awenau wrth sicrhau bod y cynllun gweithredol yn cael ei weithredu o safbwynt staffio.

**Manylion Cyswllt:**

Catrin James, Swyddog Datblygu'r Gymraeg
CFfI Cymru
Llanelwedd
Llanfair-ym-Muallt
Powys
LD2 3NJ

☎ 01982 553502
catrin.james@yfc-wales.org.uk

## Wales YFC Welsh Language Policy

The Wales Federation of Young Farmers' Clubs (YFC) is committed to sustaining and developing the Welsh language through all aspects of delivery. The organisation recognises the equal importance of both the Welsh and English language and believes that all those who are involved in the work of the YFC have the right to receive services through the language of their choice.

We recognise that that everyone's first language is important, because;

- Language is a way of expression,
- Language is a sign of individuality,
- Language is a powerful instrument, and
- Language is a part of the heritage of Wales, with the organisation committed to safeguarding its future.

## Role of the YFC in respect of the Welsh language

Wales YFC appreciates the important role that it plays in rural Wales, in respect of the language and commits to safeguarding and developing the language through;

- Providing first language Welsh speakers with opportunities to use the language freely in a social environment that is safe and supportive, helping to increase the confidence of all young people, volunteers and staff in their use of the language.
- Through a supportive and safe environment, provide young people, volunteers and staff who class themselves as second language Welsh speakers with informal opportunities to develop their skills and confidence in using the language, helping them to strive towards fluency,
- Provide all services bilingually, allowing everyone to access the services through the language of their choice,
- Support the work of the Welsh Government in respect of the language and the vision of 'A million Welsh speakers by 2050' through their Cymraeg 2050 strategy, as well as proactively engaging in the work of the Welsh Language Commissioner

## Our Welsh offer

Through the support of the Welsh language Commissioner, Wales YFC agrees its offer in relation to its support of the language.

1. We will ensure that members have the opportunity to participate in all activities through the medium of Welsh.
2. All of the organisation's services will be advertised bilingually, with Welsh first, or left of English
3. Translation support will be offered in all meetings, either through simultaneous translation, or by the chairman inviting contributions through the medium of Welsh or English, with points in Welsh being translated by a competent person in attendance.
4. Wales YFC will provide support to County Federations in providing a service through the medium of Welsh, as and when necessary, where county staff and volunteers within the federation are not confident to do so.
5. Young people, volunteers and members of the general public are able to participate and communicate with the organisation through the medium of Welsh. At all activities and events organised by the organisation, there will be at least one staff member or volunteer who it able to greet and answer queries in Welsh.

## Operational plan

To ensure that the organisation achieves its Welsh offer and develops it work in relation to the language, through the support of the Welsh language commissioner's office, Wales YFC has developed an operational plan that will be actively considered and reviewed on an annual basis.

The operational plan is attached, under appendix one.

## Monitoring and Reporting

A working group will be established by Wales YFC council, who will be required to annually review the operational plan and report back on their findings and any recommendations for subsequent operational plans.

## Feedback

The Wales YFC Welsh Language operational plan will be available to all members, officers and members of the public and will be available on the organisation's website, through which recommendations for improving the Plan will be welcomed.

The Wales YFC Welsh Language Development Officer will deal with complaints regarding failure to meet any of the plan's requirements and will be the staff lead, to ensure implementation of the operational plan from a staffing perspective.

**Contact details:**

Catrin James, Welsh Language Development Officer
Wales YFC
Llanelwedd
Builth Wells
Powys
LD2 3NJ

☎ 01982 553502
catrin.james@yfc-wales.org.uk